CYNGOR CYMUNED LLANYBYDDER

CYFARFOD 1 HYDREF 2025

1. Croeso i'r Cadeirydd.

2. Yn bresennol: K Jones, Cadeirydd, N Morris, Is Cadeirydd, D Owen, M Morris, H Jones.

Derbynwyd Ebost wrth Mr Nicholas Flack yn rhoi gwybodaeth ei gefndir. Gan fod seddau ar gael i gyd–ddewis yn ein Cyngor, penderfynwyd i gyd-ddewis Mr Flack yn Gynghorwr yn ein Cyngor. Clerc i gadarnhau hyn i Mr Flack a rhoi gwybod i'r Gwasanaethau Etholiadol.

**3 BUDD PERSONOL NEU RAGFARNLLYD.**
N Morris wedi datgan buddiant ynglyn a Chlwb pel droed iau Llanybydder gan ei bod yn Is-Gadeiryddes. Clerc i gofrestru yn y gofrestr datganiadau o fuddiant.

**4. COFNODION**
Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir.

**5. MATERION SY'N CODI O'R COFNODION :-**
Mai 2024 - 2.3 – Marciau ar y Cwrt Tenis – Derbynwyd ddyfyniad wrth South Wales Sports Grounds ynghlyn a linellu'r Cwrt Tennis. Cyflenwi a gosod Safemark SB Acrylic, paent llinellau i BS EN 1871 arwyneb macadam bitwmen presennol, lled 50milimedr. Clerc i ofyn iddynt a byddant yn cynnig gwarant a'r ei gwaith, a dweud wrthynt na fyddwn yn medru cario ymlaen a'r gwaith hyn hyd nes y Gwanwyn 2026 phan byddwn yn cysylltu ac hwy eto. Ni atebodd y ddau gwmni arall a dyfyniadau i'r Clerc er gwaethaf y ffaith bod y Clerc wedi cysylltu ac hwy sawl gwaith.

Mai 2024 - 4.1 – Cynhwysydd – Mae mater y silffoedd mewn llaw gan H Jones a bydd yn diweddaru'r Clerc.

Apr 25 5.3 Sebra yn y parc – Nid yw'r gwaith hyn wedi i'w wneud o hyd er bod Gareth wedi addo. Clerc i'w atgoffi eto.

Ebr 25 5.4 Paentio pyst gôl. K Jones i ofyn i Tomos Evans am ddyfyniad ar Clerc i Ebostio T Evans hefyd.

6.1 Byrddau hysbysfeydd – Arhoswn nes daw yr allweddi yn ol cyn cysylltu a D Thomas.

6.2 Toiledau – Mesyddion arian – Mae D Owen wedi siarad a Mared eto a mae yn awr yn chwilio am ariannu.

6.3 Toiledau anabl – Drws ddim yn cau yn iawn - Ateb wrth Andrew Russ yn dweud eu bod hwy wedi defnyddio eu gweithwyr (celfyddydwyr coed, trydanwyr a phaentwyr) wneud unrhyw waith atgyweirio. Clerc i gysylltu ac A Russ eto a gofyn iddo a fyddai ei weithwyr ef yn gweithio ar fframiau metel a drysau, neu arbenigwr.

6.4 Pwllau mawr sgwar gwaelod o gyffordd ffordd i flaen Dolgwm Stores ac o flaen Gwesty'r Llew Du. Clerc i ffonio Mrs B Price.

6.5 Dyn llaw – I'w gadw ar ein cofnodion.

6.15 July 25 Mr Garside – Derbynwyd Ebost a lluniau wrth Tomos Evans. Mae wedi gorffen y ffens newydd yn y parc fel a ofynnir iddo, a mae'r cyfan yn edrych yn daclus iawn.

7.1 6/25 – Miwral – Mae'n gytun bydd y Miwral yn cael ei rhoi yn Nisa.

6.1 7/25 – Ysgol Highmead – Dywedodd N Morris bod perchennog yr ysgol wedi bod yn garedig iawn i adael y Clwb Pel Droed Iau Llanybydder i ddod yn ol i'r ysgol i chwarae pel droed. Mae problem gan fod postyn trydan yng nghanol y cae. Clerc i gysylltu a'r National Grid a gofyn a allant symud y postyn yma ac adsefydlu'r cabliau rownd y cae fel roedd blynyddoedd yn ol. Edrychwch ar Rhif 3, tudalen 1 ynghlyn a Datgan Buddiant N Morris.

6.2 7/25 – Gwrych yn ymyrru ar briffordd cyhoeddus – Clerc i ysgrifennu i'r perchennog.

6.3 7/25 – Uwchraddio'r Senotaff – Mater yn parhau.

6.6 Fandaliaeth yn y parc 15/7/25 – Mi ddysgodd y Clerc mae Tomos Evans roedd wedi clanhau'r paent o'r bin sbwriel a nid y glaw fel roedd PC Awen wedi meddwl. Cyfeirnod y drosedd sy'n berthnasol yw 188 150 725.

6.7 Western Power – Golau Nadolig – Ebost wrth Ryan Parker o'r National Grid yn ein atgoffa ei fod yn mofyn y gwybodaeth canlynol:

Faint o oleuon a dangosiadau.
Pwer y goleuon.
Oriau tanio dyddiol.
Amserion golau ymlaen a throi bant.
Cyfnod o weithrediad – Dyddiadau dechrau a gorffen y goleuo.

Mae'r Clerc i ateb fel y trafwyd yn ein cyfarfod er mwyn derbyn y Dystysgrif Defnydd, erbyn 1/12/25 a dweud wrthynt ein bod yn mofyn y goleuon etc erbyn 1/12/25. Derbynwyd dwy anfoneb wrth SSE am £70.91 a £105.78. Ond cyn eu talu mae rhaid cael gwybod a ydy'r anfonebau yma yn berthnasol i Lanybydder a Rhydcymerau gan fod dim eglurhad o hyn ar yr anfonebau.

6.8 7/25 – Batris defib – Mae'r Clerc wedi talu N Morris.

6.9 Archwiliad y parc – Clerc i gysylltu a Tomos Evans a gofyn a rydyw wedi cael siawns i edrych at dudalenau 14 – 19 o'r Adroddiad Archwiliad y parc ac iddo gadarnhau i'n Cyngor.

**MATERION NEWYDD LLANYBYDDER**

6.1 Rhwystra Brynduar – Clerc i ysgrifennu at Gyngor Sir Gar a danfon copi o'r llun sy'n dangos yn blaen yr rhwystra ar y palmant a'r perygl o fodur yn sefyll ar stand heb unrhyw gymorth arall.

6.2 Rhwystra briffordd – Tafarn yr Albion – Manteg. Clerc i ddanfon llythyr i'r Briffyrdd. Mae tipyn o foduron o Dafarn yr Albion i Manteg.

6.3 Tyllau – Sgwar gwaelod i Dafarn Tangraig – Clerc i ddanfon Ebost i A B Jones i ofyn iddo drefnu cael y blwch tar poeth i ddod allan.

6.4 Bryn Peters – Gofyn am llinellau dwbwl o Dafarn Tangraig lawr hyd Roy Thomas Farm Supplies. Clerc i ddanfon Ebost i A B Jones i ofyn am hyn.

6.5 Y Ffatri Laeth – 1 Bro Duar – Gofyn am linellau dwbwl – Clerc i ddanfon Ebost i A B Jones i ofyn am hyn.

6.6 CCTV Parc – Clerc i ddod o hyd i dri cwmni CCTV i ofyn iddynt ddod allan a danfon dy fyniadau.

6.7 CCTV Toiledau - Yr un peth a'r 6.6 uchod.

6.8 Fandaliaeth yn y toiledau – Gan fod papur toiled yn cael eu ddygid a'r dalwyr rol papur toiled yn cael eu ripio bant o'r walydd, penderfynwyd i brynu dalwyr rol papur toiled newydd a bydd yn gryfach. K Jones yn edrych mewn i'r mater.

6.9 Breast Cancer Now – 25/10/25 sy'n nodi'r diwrnod hyn. N Morris yn cysylltu a Sarah Selby.

6.10 Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu – Derbynwyd boster wrthynt ynghlyn a Phobl Ifanc 18 – 25. Mae'r Clerc i'w rhoi i fynu ar y bwrdd hysbysfeydd a'r we.

6.11 Lyn Jones – gofyn am Gennin Pedr - Rhoddwyd ganiatad i L Jones i brynu'r Cennin Pedr. Clerc i gadarnhau yn ysgrifenedig iddo.

6.12 Fflag Gymraeg – Ebost wrth Gary Evans yn dweud bod y fflag Gymraeg yn y Senotaff wedi briwo yn y gwyntoedd cryf yn ystod y misoedd diwethaf. Dywedodd hefyd fod y fflag wedi briwo llynedd hefyd, a mi dalodd amdani drwy gost ei hun. Dywedodd y Cynghorwyr bydd rhaid talu G Evans am y fflag newydd £20.95; mae'r Clerc wedi derbyn anfoneb wrth G Evans.

6.13 Owain Glyndwr – Ebost wrth Gareth Jones yn dweud bod diwrnod Glyndwr yn cael ei ddathlu ar 16/9/25, a diolchwyd i ni os roedden wedi gwneud unrhyw drefniadau i'r diwrnod hyn.

6.14 Coed Nadolig – Clerc i chwilio am 3 Tendr a'u dangos yn lleol ac ar y we.

6.15 – Golau Nadolig – Clerc i Ebostio Eddie Davies ynghlyn a'r rhestr diffygion y golau Nadolig. N Morris yn gwneud trefniadau i wirio'r goleuon cynhyrchiol, a bydd yn siarad ac Andrew, Clwb Rygbi.

6.16 Rhagor o fandaliaeth yn y Parc
01/09/25 Ebost wrth D Owen. Mae rhywun wedi mynd mewn i'r parc a rhwygo'r sbinwyr gwyrdd a'i daflu mewn i ardd Rhif 44, a sydd wedi gadael polyn ble all plant gael niwed. Rhoddwyd gyfarwyddyd i'r Clerc i ofyn i Tomos Evans i edrych a gwneud yn saff, ac i adrodd y mater i'r Heddlu.

02/09/25 Ebost a llun wrth L Cartwright yn adrodd yr un mater a'r polyn.

02/09/25 Ebost wrth Tomos Evans yn dweud ei fod yn mynd i'r parc yr un noswaith i wneud y polyn yn saff a chodi set y sbinwyr gwyrdd o Rhif 44.

03/09/25 – Ebost wrth PC Awen - Chyfeirnod Trosedd DP-20250902-173.

6.17 Storio i Gyngor Llanybydder yn Krazy Horses – Mi symudodd H Jones y bocsys etc o Krazy Horses wrth ei hun, a diolch iddi hi am hyn. Diolch eto i T Gordon am storio am ddim.

6.18 Polyn fflag i'r Ardd Mileniwm – K Jones yn mynd allan am brysiau'r polyn.

**MATERION RHYDCYMERAU**

7.1 Tyfiant ym Mro Merau – Clerc i ddanfon atgofiad i Maria Evans i ofyn am ddiweddariad. Clerc i rhoi gwybod i M Evans am broblem arall ynghlyn a'r ysgall a mae sydd ar y bont a'r palmantau sydd yn edrych yn aniben iawn.

**8. DEG TREF**

8.2 Gardd Sylweddol – Mi gymerodd cyfarfod rhan ar 19/08/25 yn yr ardd yma, L Morris, D Owen a'r Clerc. Llanwyd y ffurflen gais gyda chymorth L Morris. Derbynwyd ddyfyniad wrth Roberts Garden Centre, Llambed, a roedd y Clerc wedi ei adael yn ei swyddfa. Pan ddaw y dyfyniad arall wrth Trefhedyn, mae'r Clerc i'w danfon i'r Cynghorwyr i gyd ac i Linda Morris.

**HYFFORDDIANT CYNGHORWYR A'R CLERC**

Hyfforddiant Cod Ymarfer 10/07/25 – Mae'r Clerc yn gwneud trefniadau i ddefnyddio'r ddull recordio iddi hi cyn gynteg a sy'n bosib. Bydd Adroddiad Hyfforddiant yn cael ei baratoi ar ol ein cyfarfod nesaf 10/25. Gofynodd y Clerc am ganiatad i gael mynd ar yr SLCC ac Un Llais Cymru digwyddiad ar y cyd ar yr 12/11/25 – Amser 9.40yb – 4.20yh – pris bydd £65.00 + Taw am aelodau a dim aelodau. Rhoddwyd ganiatad i'r Clerc, a nawr bydd yn gofyn am god hyrwyddo cyn cofrestru am y digwyddiad.

**10. GOHEBIAETH**

10.1 Llythyr o ddiolch wrth Pwyllgor Pentref Llanybydder am ein rhodd.

10.2 Derbynwyd Broses Ymgynhori ynghlyn a newid yr amrediad oedran o 4 – 11 i 3 – 11 yn ysgol Llanybydder.

10.3 Bin sbwriel y Cyngor wedi symud – Ebost wrth T Gordon yn dweud roedd y bin sbwriel yma ar y palmant yng nghornel ei gardd hi, ble mae'r bws T1 yn stopio hefyd, ond wedi gael ei symud gan y Cyngor. Ei phroblem hi nawr yw nid oes bin i gael i'r pobl sy'n sefyll a maent yn taflu eu sbwriel mewn i'w gardd hi. Mae T Gordon yn gofyn i gael yr safle bws gael ei symud nes lawr gwrtherbyn ar safle bws arall, ble mae yn gwneud synwyr gan fod yr heol yn ehangach. Mae D Owen yn edrych mewn i'r mater.

10.4 J Lawday – L Jones – Maent wedi bod yn cyfathrebu a'u gilydd dros y 2 mis diwethaf ynghlyn a llwybr Glanduar. Mae J Lawday wedi cadarnhau mae'r llwybr yma 15/2 yn gyfrifoldeb Cyngor Sir a dim Cyngor Cymuned Llanybydder.

10.5 Lyn Jones – Llythyr wrth L Jones yn codi amrywiaeth faterion ac yn gofyn am atebion yn unol a hynny. Clerc i ateb L Jones.

10.6 Cyflwynyd i sylw ein Cyngor bod yr holi pam na roedd Cynghorwyr Cyngor Cymuned Llanybydder yn bresennol yng nghyfarfod turbynau (uwchben mynydd Pencarreg a thros Rhydcymerau) yn Llansawel.

10.7 SRiC EOI Ceisiadau – Ebost wrth Thomas Evans, Cynllunydd Trafnidiaeth – Adran Ffyrdd a Thrafnidiaeth yn dweud wrth ein Cyngor na fyddant yn mynd a chynnig Llanybydder ymhellach, ond byddai yn hapus i weithio'n uniongyrchol i ymgyrchu SWTRA am drawiad dros yr A485 gan ei fod yn credu dyma'r brif mater roedd ein Cyngor eisiau ei ddatrys yn y cynnig. Mae ein Cyngor rhoi gwybod iddo os rydyn a diddordeb. D Owen yn mynd i gysylltu a Thomas Evans.

## 11. CYNLLUNIO

PL/09761 – Newidiau defnydd o D2 i D1 a D2 dosbarth cymysg (Ysgol Feithryn Dydd a chanolfan chwarae medal – Krazy Horses, Neuadd Yr Eglwys, Market Place, Llanybydder SA40 9UE.

PL/09830 – Cywiriad amaethyddol mynediad caeau – Tir gerllaw a wyneb yn wyneb Tynllwyn, Tymawr, Llanybydder SA40 9RB.

PL/09912 – Troi bwthyn i dy preswyl – Buzzards View, Wenallt Uchaf, Rhydcymerau, Llandeilo SA19 7RL.

Nid oedd gwrthynebiad i'r 3 achosion uchod.

## 12. CYLLID

**Datganiadau Banc**

| | | |
|---|---|---|
| Banc NatWest Cownt Cyfredol | 19/07/25 - 19/08/25 | £30459.63. |
| | 20/08/25 – 19/09/25 | 49633.21. |
| HSBC – Datganiad Banc Rhif 169 | 01/08/25 – 31/08/25 | 4177.80. |

**TALIADAU**

Dim.

**RHAGOFYNIAD BLYNYDDOL**

£23,333.33 wedi i'w dalu mewn i'r Banc.

**RHEOLAU SEFYDLOG**

TALK TALK

21/05/25 Nodyn Credyd -£18.27. Clerk i fynd ar drywydd am y credyd hwn.

BT
07/08/25 Anfoneb £45.20.

07/09/25 47.15.

Ffoniodd y Clerc BT eto i ofyn am filiau wedi'u rhestru, ond annodd credu, dywedon wrthi ein bod allan o gytundeb eto! Eu eglurhad oedd nid oedd ganddynt Rhif Yswiriant Gwladol y Clerc. Danfonwyd ar unwaith gadarnhad yr archeb a sicrhau i'r Clerc byddai'r pris a phopeth arall yn dal yr un peth a'r cytundebau blaenorol. Yn ychwanegol, danfonodd BT Ebost arall i'r Clerc "Aberaeron, we're coming to see you". Wel, mi gawn weld beth fydd yn dod ar ein traws nesaf.

Ffoniodd Christian o Hosted i'r Clerc a dweud eu bod yn gweithio'n uniongyrchol gyda Open Reach ynghlyn a newid i Digidol. Dywedodd all wneud y trosi ar unwiath, a mi ofynodd y Clerc pwy byddai ein Cyngor yn talu am y wasanaeth hyn, ei ateb oedd Hosted. Dywedodd y Clerc wrtho nad oedd hi dim wedi'i argyhoeddi oherwydd yn sicr mi ddylai ein Cyngor dalu BT a neb arall. Gorffennodd y Clerc a'r alwad ffon a dweud wrtho ei fod ddim yn wir ond sgammer, a mi adroddodd y dwyll i BT.

**TALIADAU AR-LEIN**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 14/08/25 | EDF | £106.31 | Trydan toiledau. |
| 26/08/25 | M Y Beynon | 1198.67 | Cyflog y Clerc8/25. |
| 26/08/25 | HMRC | 299.80 | Treth y Clerc8/25. |
| 26/08/25 | K Jones Anfoneb 8/25 | 440.00 | Clanhau toiledau. |
| 26/08/25 | Tomos Evans | 2064.00 | Cytundeb Parc etc. |
| 09/09/25 | EDF | 110.13 | Trydan toiledau. |
| 25/09/25 | K Jones Anfoneb 9/25 | 557.06 | Clanhau toiledau. |
| 30/09/25 | M Y Beynon | 1198.87 | Cyflog y Clerc 9/25. |
| 30/09/25 | HMRC | 299.60 | Treth y Clerc 9/25. |
| 03/10/25 | bccIT | 57.60 | Amddiffyn Diweddpwynt. |
| 03/10/25 | LHP | 750.00 | Ffi archwiliad mewnol. |
| 03/10/25 | SLCC | 183.00 | Ffi adnewyddi aelodaeth. |
| 03/10/25 | Gary Evans | 20.95 | Amnewid fflag Gymraeg. |
| 03/10/25 | Clwb Pel Droed Iau Llanybydder. | 250.00 | Rhodd. |
| 07/10/25 | N Morris | 33.49 | Ail-dalu am fatris. |
| 07/10/25 | Urdd Gobaith Cymru | 50.00 | Rhodd. |

**CYFLOG M Y BEYNON**

| | |
|---|---|
| Cyflog 8/25 | £1498.47 |
| Llai Treth | 299.80 |
| Yn daladwy i'r Clerc | £1198.67 |
| | |
| Cyflog 9/25 | £1498.47 |
| Llai Treth | 299.60 |
| Yn daladwy i'r Clerc | £1198.87 |

**INCWM**
Dim.
**12 RHODDION**

| | | |
|---|---|---|
| Urdd Gobaith Cymru | £50.00 | S137. |
| Clwb Pel Droed Iau Llanybydder | 250.00 | S137. |

Rhoddion hyd yma: S137 £1300.00 S19 £0.00

**CYFARFODYDD YCHWANEGOL A FYNYCHWYD**
Cafodd cyfarfod Tims ar yr 7/8/25 ynghlyn a Paul Evans / Senotaff. Roedd K Jones, N Morris, D Owen, M Morris, H Jones yn bresennol.

Gardd Synhwyraidd – Bu cyfarfod ger y Llwyfan Band ar yr 19/8/25 a wedyn i Westy'r Cross Hands. Roedd Linda Morris, D Owen a'r Clerc yn bresennol.

Gardd Synhwyraidd – Bu cyfarfod ger y Llwyfan Band ar yr 29/8/25. Roedd Roger, Canolfan Ardd Trefhedyn, D Owen a'r Clerc yn bresennol.

Gardd Synhwyraidd – Bu cyfarfod ar yr 11/9/25 ger y Llwyfan Band. Roedd Robert Jones, Canolfan Ardd Robert, D Owen a'r Clerc yn bresennol.

**COMISIWN ELUSEN**
Ychwanegwyd Mrs M Morris yn Ymddiriedol.

**ARCHWILIO CYMRU**
Ebost wrth Daniel Evans, Archwilio Cymru sydd wedi nodi 2 beth. Nid oedd esboniad o'r amrywiant ar linell 3 gan y Clerc yn ddigonol gan ei fod ddim yn syrthio du fewn y drothwy 15% (sy'n gadael amrywiant heb ei esbonio o -£692.43). Bydd y Clerc yn darparu eglurhad ychwanegol a fydd yn dod a hi i'r ffigwr cywir.

Yr ail beth oedd "I ddod yn Gyngor Cymuned Cymwys". Roedd y Clerc wedi ticio blwch anghywir ar dudalen 2 o'r Cyflwyniad Blynyddol, a bydd y Clerc yn cadarnhau hyn i Archwilio Cymru.

**RHEOLAU ARIANNOL 2025**
Clerc i baratoi drafft cyn ein cyfarfod nesaf.

**RHEOLAU SEFYDLOG**
Clerc i baratoi drafft cyn ein cyfarfod nesaf.

**LWFANSAU I'R AELODAU**
Bydd y Clerc yn paratoi nes ymlaen.

**14. UFA**
Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.55yh.

CYNHELIR Y CYFARFOD NESAF YN FESTRI CAPEL ABERDUAR

NOS IAU 23 HYDREF 2025 - 7.00yh